# Pecyn Recriwtio i Ymgeiswyr

# Athro/Athrawes Busnes ac Arweinydd Galwedigaethol 14-19

## Parhaol

## Rhan Amser (0.6)

Cyflog – Prif Raddfa Cyflog (CAD2b)



Dyddiad Dechrau :

1af Medi 2025

Dyddiad Cau:

16eg Mai 2025

# Hysbyseb Swydd

## Athro / Athrawes Busnes ac Arweinydd Galwedigaethol 14-19

## Cyflog: Prif Raddfa Gyflog + CAD2b (£5,392)

## Rhan Amser (0.6)

## Parhaol

Mae Llywodraethwyr Ysgol Bro Teifi yn awyddus i benodi addysgwr blaengar, cydwybodol a phrofiadol i ymuno a'r ysgol fel athro/athrawes Busnes ac Arweinydd Galwedigaethol ar gytundeb rhan amser a pharhaol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- angerddol dros ddysgu ac yn barod i fynd y filltir ychwanegol i wneud yn siŵr fod disgyblion yn derbyn profiadau dysgu gwerthfawr a fydd yn caniatáu iddynt dderbyn cymwysterau a phrofiadau gwerthfawr mewn meysydd galwedigaethol.
- addysgwr rhagorol sydd a'r gallu i fynnu ar y safonau uchaf o ran cyrhaeddiad mewn cymwysterau cydnabyddedig.
- Ymroddedig i sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd eu potensial ac yn gwireddu arwyddair yr ysgol 'oni heuir, ni fedir'.
- Gyfrifol am sicrhau safonau uchel yn y ddarpariaeth alwedigaethol o fewn yr ysgol gan ddangos adnabyddiaeth dda o ofynion a threfniadau byrddau arholi.

Ar hyn o bryd, darperir cymwysterau Busnes, Iechyd a Gofal, Amaethyddiaeth a Thwristiaeth o fewn y maes galwedigaethol 14-19.

## Ble fyddwch yn gweithio?

Ysgol gydol oed 3-19 yw Ysgol Bro Teifi wedi ei leoli y tu allan i dref Llandysul yn ne-ddwyrain Ceredigion. Mae rhyw 45 munud o daith o ddiwedd yr M4 a 30 munud o dref Caerfyrddin. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig, Gymreig gyda thua 79% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl a bron i 64% yn siarad Cymraeg yn y cartref.



Agorwyd yr ysgol ym Medi 2016, yn dilyn buddsoddiad o £30m gan Gyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru. Bro Teifi ydy'r ysgol pob-oed, cyfrwng Cymraeg cyntaf yng Nghymru ac mae'n cynnig cyfleusterau dysgu o'r radd flaenaf ar gyfer yr holl ddisgyblion, o'r lleiaf i'r hynaf.

Ers iddi agor mae nifer y disgyblion wedi cynyddu ac ar hyn o bryd mae 850 o ddisgyblion yn yr ysgol gyda 320 o oedran cynradd.

Arolygwyd yr ysgol gan Estyn yn Nhachwedd 2024 ac adroddwyd bod,

*.... **staff a disgyblion Ysgol Bro Teifi yn cydweithio'n agos i greu awyrgylch deuluol a chynnal ethos cynhwysol a gofalgar. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn sicrhau bod popeth sydd eu hangen arnynt o ran gofal a chefnogaeth ar gael yn ddi-rwystr. O'r dysgu sylfaen i'r chweched dosbarth, mae'r disgyblion yn gwireddu arwyddair yr ysgol, 'Oni heuir, ni fedir', yn llwyddiannus, gan fanteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol, parchus a charedig. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas dros amser o ystyried eu hoed a'u gallu***

***Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn dda yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac at staff ac maent yn annwyl a chroesawgar gydag ymwelwyr. Mae bron bob disgybl yn y chweched dosbarth yn arddangos agweddau arbennig o gadarnhaol**.*



I ddysgu mwy am ein ysgol, ewch i'n gwefan www.ysgolbroteifi.cymru

**Mae'r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.**

**Os am drafodaeth anffurfiol ynglŷn â'r swydd hon neu i gael taith o amgylch yr ysgol cyn cyflwyno cais, cysylltwch â'r Pennaeth, Mr Gareth Evans ar 01559 362503 neu drwy e-bost, EvansG304@broteifi.ceredigion.sch.uk.**

## ***Diogelu***

*Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant, pobl ifanc a'r rhai sydd mewn perygl i sicrhau eu bod mor ddiogel ag y gallant fod. Rydym yn cydnabod bod gan blant, pobl ifanc a'r rhai sydd mewn perygl hawl i gael eu a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod o staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn, a bydd angen Gwiriad Gwell gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), CRB gynt.*



### **Dyddiad Cau: 16eg o Fai 2025**

### **Cyfweliadau: 22ain o Fai 2025**

Gofynnir i ymgeiswyr i sicrhau eu bod ar gael i fynychu cyfweliad ar y diwrnod uchod cyn gwneud cais.

YSGOL BRO TEIFI

# EIN GWERTHOEDD CRAIDD

## PARCH

## UCHELGAIS

## CAREDIGRWYDD

## CYMREICTOD

## TEGWCH

## GWYDNWCH

YSGOL BRO TEIFI

# BLAENORIAETHAU BRO TEIFI – 24/25

# BRO TEIFI PRIORITIES – 24/25

1. DATBLYGU MEDRAU DISGYBLION ER MWYN SICRHAU CYNNYDD PARHAUS
   DEVELOP PUPILS'SKILLS IN ORDER TO ENSURE CONTINUOUS PROGRESS

2. GWEITHREDU DATBLYGIADAU PELLACH I GWRICWLWM YR YSGOL
   IMPLEMENT FURTHER DEVELOPMENTS TO THE CURRICULUM

3. GWELLA LEFELAU PRESENOLDEB DYSGWYR AR DRAWS YR YSGOL
   IMPROVE PUPIL ATTENDANCE ACCROSS THE SCHOOL

4. GWREIDDIO ARFERION ADDYSGEG CADARN AR DRAWS YR YSGOL
   EMBED GOOD TEACHING ACROSS THE SCHOOL

5. DATBLYGU YMHELLACH STRATEGAETH LLESIANT YR YSGOL
   DEVELOP FURTHER THE SCHOOL'S WELLBEING STRATEGY

6. DATBLYGU YMHELLACH, ARWEINWYR AR BOB LEFEL YN YR YSGOL
   DEVELOP FURTHER, LEADERS AT ALL LEVELS IN THE SCHOOL

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | **Athro / Athrawes Busnes ac Arweinydd Galwedigaethol 14-19** |
| Lleoliad | Ysgol Bro Teifi |
| Oriau Gwaith | Rhan Amser (0.6) |
| Math o Gontract | Parhaol |
| Hyd y Contract | Parhaol |
| Teitl swydd y Rheolwr Llinell Uniongyrchol | Dirprwy Bennaeth |
| Dyletswyddau a chyfrifoldebau | **Bydd angen i bob athro:-**<br>• I weithredu a chyflwyno cwricwlwm perthnasol, eang, cytbwys, a gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion ac i gefnogi'r ardal gwricwlwm penodol / pwnc priodol.<br>• I fonitro a chefnogi cynnydd a datblygiad y disgyblion fel athro/tiwtor dosbarth.<br>• I hyrwyddo ac annog profiadau dysgu sy'n rhoi cyfle i'r disgyblion i gyflawni eu potensial personol.<br>• I gyfrannu at godi safonau a chyrhaeddiad disgyblion.<br>• I rannu a chefnogi cyfrifoldeb yr ysgol i barhau a monitro cyfleoedd am gynnydd academaidd a phersonol.<br>• I weithredu cynlluniau ansawdd yr ysgol.<br><br>**Cwricwlwm**<br>Cynllunio, Datblygu a Hunan Arfarnu<br>• Cyfrannu at Gynllun Datblygu y gyfadran.<br>• Cynorthwyo gyda datblygiad Cynlluniau Gwaith, adnoddau, Polisi Marcio a strategaethau dysgu yn ardaloedd trawsgwricwlaidd ac adrannol.<br>• Cynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi.<br>• Cynorthwyo arweinwyr yr ysgol drwy baratoi amrediad o amcanion dysgu sy'n cefnogi blaenoriaethau'r ysgol. |

- Cynorthwyo yn y broses o ddatblygu cwricwlwm a rheoli newid i sicrhau bod y cyrsiau yn berthnasol i anghenion y disgyblion yn ogystal â'r byrddau arholi a gwobrwyo.
- I adolygu'r dulliau dysgu a rhaglen astudio.
- Cyfrannu i'r broses o fonitro ac arfarnu Cynlluniau Datblygu o fewn cylch hunan-arfarnu, gan gynnwys arfarnu yn erbyn targedau a meincnodau.
- I geisio a gweithredu newidiadau a gwelliant.
- I adolygu'r datblygiadau cwricwlwm, trefnyddiaeth a bugeiliol yr ysgol.

**Addysgu**

I addysgu disgyblion yn ôl eu hanghenion addysgol, gan gynnwys gosod a mario gwaith ar gyfer y disgybl yn yr ysgol neu mewn lle arall.

- Asesu, recordio ac adrodd ar bresenoldeb, cynnydd, datblygiad a chyrhaeddiad y disgyblion ac i gadw cofnodion yn ôl y galw.
- I baratoi, neu gyfrannu at, asesiadau llafar ac mewn ysgrifen, adroddiadau a geirda sy'n berthnasol i ddisgyblion unigol neu grŵp o ddisgyblion.
- Sicrhau bod yr elfennau trawsgwricwlaidd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Llythrennedd, Rhifedd, Datrys Problemau a ac eraill yn cael eu hadlewyrchu ym mhrofiadau dysgu ag addysgu'r disgyblion.
- Ymgymryd â llwyth gwaith dysgu penodol.
- Sicrhau profiadau dysgu o safon uchel ar gyfer y disgyblion sy'n cyrraedd ansawdd disgwyliedig safonau mewnol ac allanol.
- Paratoi ac uwchraddio adnoddau pynciol.
- Defnyddio dulliau dysgu amrywiol fydd yn symbylu'r dysgu ac ateb anghenion y disgyblion a'r cwricwlwm.
- Cynnal disgyblaeth yn ôl cytundeb a phrosesau'r ysgol, ac i annog arfer da gyda phrydlondeb, ymddygiad, safonau gwaith a gwaith cartref.

- Asesu, recordio ac adrodd ar bresenoldeb, cynnydd, datblygiad a chyrhaeddiad y disgyblion ac i gadw cofnodion yn ôl y galw.
- I baratoi, neu gyfrannu at, asesiadau llafar ac mewn ysgrifen, adroddiadau a geirda sy'n berthnasol i ddisgyblion unigol neu grŵp o ddisgyblion.
- Sicrhau bod yr elfennau trawsgwricwlaidd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Llythrennedd, Rhifedd, Datrys Problemau a ac eraill yn cael eu hadlewyrchu ym mhrofiadau dysgu ag addysgu'r disgyblion.
- Ymgymryd â llwyth gwaith dysgu penodol.
- Sicrhau profiadau dysgu o safon uchel ar gyfer y disgyblion sy'n cyrraedd ansawdd disgwyliedig safonau mewnol ac allanol.
- Paratoi ac uwchraddio adnoddau pynciol.
- Defnyddio dulliau dysgu amrywiol fydd yn symbylu'r dysgu ac ateb anghenion y disgyblion a'r cwricwlwm.
- Cynnal disgyblaeth yn ôl cytundeb a phrosesau'r ysgol, ac i annog arfer da gyda phrydlondeb, ymddygiad, safonau gwaith a gwaith cartref.

**Asesu a Chynnydd**

- I asesu disgyblion ar gais y byrddau arholiad allanol (uwchradd), adrannau a gofynion ysgol gyfan.
- I farcio, graddio a pharatoi adborth yn llafar ac yn ysgrifenedig.
- Cadw cofnod priodol a darparu gwybodaeth gyfredol gywir ar gyfer Incerts, SIMS, cofrestri ayyb.
- Cwblhau dogfennau priodol i gynorthwyo'r broses o olrhain cynnydd disgyblion.
- I ddefnyddio'r data fel gwybodaeth ar gyfer sicrhau cynnydd yn y gweithgareddau dysgu ag addysgu.

**Adnoddau**

**Staffio**

- I gymryd rhan yn rhaglen datblygu staff yr ysgol er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol.
- I barhau i ddatblygu'n bersonol yn yr ardaloedd a adnabuwyd drwy'r broses hunan arfarnu gan gynnwys gwybodaeth bynciol a dulliau dysgu.
- Gweithredu'r broses Rheoli Perfformiad gydag arddeliad.
- I gyfrannu yn bositif i'r cydweithio effeithio o fewn yr ysgol.

**Cefnogaeth**

- Sicrhau defnydd effeithiol /effeithlon o gynorthwywyr dosbarth.
- Cefnogi eich cyd-weithwyr fel aelod o dîm.

**Cyfathrebu**

- Cyfathrebu yn effeithiol a chydweithio gyda rhieni.
- Cyfathrebu yn effeithiol o fewn y sefydliad.
- Cymryd rhan mewn Nosweithiau Agored a Chyfarfodydd Rhieni a chydweithio gydag ysgolion lleol.
- Cyfrannu at ddatblygu cysylltiadau pynciol effeithiol ar draws yr ysgol, gydag ysgolion partner ac asiantaethau allanol eraill.

**Adnoddau Dysgu**

- Cyfrannu at y broses o archebu a dosbarthu cyfarpar a defnyddiau.
- Adnabod adnoddau addas a gwneud defnydd effeithiol/effeithlon o'r adnoddau o fewn yr adran ac ar draws y cwricwlwm

**Bugeiliol**

- Bod yn Athro / Tiwtor Dosbarth i grŵp penodol o ddisgyblion.
- I hyrwyddo cynnydd cyffredinol a lles yr unigolion ar grŵp tiwtorial.

- Cydweithio gyda'r Rheolwr Ffês (Pennaeth Cynorthwyol) i sicrhau gweithrediad system bugeiliol yr ysgol.
- Cofrestru disgyblion, mynychu gwasanaethau, rhoi anogaeth am bresenoldeb llawn mewn gwersi ac i gymryd rhan yn holl agweddau o fywyd ysgol.
- Arfarnu a monitro cynnydd y disgyblion ac adolygu'r dyddiadur gwaith cartref yn rheolaidd.
- Codi ymwybyddiaeth y staff perthnasol o broblemau sydd gan y disgyblion a gwneud argymhellion o sut y dylid datrys y broblem.
- Cyfrannu i'r Rhaglen ABCh, dinasyddiaeth a menter yn ôl Polisi'r Ysgol.
- Defnyddio'r systemau rheoli ymddygiad er mwyn sicrhau bod dysgu effeithiol yn cymryd lle.
- Cyflwyno'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol.
- Adolygu'r cwricwlwm ABCh yn flynyddol.

**Dyletswyddau Penodol Arall**

- Tra bod pob ymdrech wedi'i wneud i egluro'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, efallai na fydd pob tasg unigol a wnaed yn cael eu nodi.
- Bydd yn disgwyl i weithwyr cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan reolwr i ymgymryd â gwaith ar lefel debyg nas pennir yn y disgrifiad swydd.

Mae disgwyl i weithwyr fod yn gwrtais tuag at weithwyr eraill a darparu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr a phobl sy'n galw dros y ffôn.

- Bydd yr ysgol yn ymdrechu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r swydd a'r amgylchedd gwaith i alluogi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth i ymgeiswyr anabl.

Mae'r disgrifiad swydd yma yn gyfredol ar hyn o bryd ar y dyddiad a ddangosir, ond drwy ymgynghori â chi, fe ellir ei newid gan y Pennaeth neu, yn ystod trafodaethau adolygiadau rheoli Perfformiad, gan eich Rheolwr cyswllt i adlewyrchu neu i ragweld newidiadau yn y swydd sy'n gymesur â  graddfa a theitl y swydd.  Bydd angen trafod y swydd disgrifiad yn flynyddol a'i llofnodi.

# Manyleb Person

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Y cymwysterau academaidd/proffesiynol/technegol/galwedigaethol (gan gynnwys Lefel y cymwysterau) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd | Statws Athro Cymwysedig<br><br>Gradd berthnasol mewn pwnc sy'n berthnasol i'r maes/meysydd cwricwlaidd penodol. | Profiad o arwain staff wrth ddarparu cymwysterau.<br><br>Cymhwyster arweinyddiaeth cydnabyddedig |
| Sgiliau ymarferol/personol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd | • Y gallu i gyfathrebu'n llawn drwy'r Gymraeg<br>• Sgiliau rhyngbersonol da<br>• Ymwybyddiaeth gadarn o feysydd llafur perthnasol<br>• Y gallu i ysbrydoli plant a phobl ifanc i gyrraedd at eu potensial llawn o fewn awyrgylch hunan ddisgybledig<br>• Hunanwerthuso eu hymarfer yn gyson er mwyn datblygu i fod yn athro/athrawes blaengar.<br>• Trefnus a gyda'r gallu i weithio gyda ac arwain tîm o athrawon | • Medrau digidol wedi eu datblygu yn gadarn |
| Profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd | • Profiad o ddysgu busnes ar safon TGAU a Safon Uwch gyda chofnod o safonau uchel o gyrhaeddiad. | • Profiad o arwain staff |
| Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd | • Hyfforddiant Amddiffyn Plant *<br>• Hyfforddiant PREVENT * | |
| Lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd<br><br>(Gweler y canllawiau iaith a'r ceri \| net ) | Gweler y tabl isod.<br><br>**Nodyn: <u>Bydd gofyn</u> i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu'r Gymraeg o fewn 2 flynedd o gael ei benodi os nad ydyw eisoes yn siarad Cymraeg.* | |

| | Gwrando/ Siarad | Darllen | Ysgrifennu | |
|---|---|---|---|---|
| Saesneg (Lefelau Fframwaith ALTE) | 5 | 5 | 5 | Hanfodol |
| Cymraeg (Lefelau Fframwaith ALTE) | 5 | 5 | 5 | Hanfodol |










oni heuir ni fedir

YSGOL BRO TEIFI







